



Pwysigrwydd Gofal Eithriadol Yn Ystod y 1000 Diwrnod Cyntaf

Mia Louise Wiles

2306399

ECEY4001-C

Cyfrif geiriau: 2923

Beth yw'r 1000 diwrnod cyntaf?



Arwyddocâd y 1000 Diwrnod Cyntaf

Yn ôl Save the Children (2016), un o'r agweddau pwysicaf ar y mater hwn yw bod yr ymennydd yn dechrau ffurfio yn y groth, a mynna Stiles a Jernigan (2010), gan gymharu ag ymennydd oedolyn, mae'r cysylltiadau sy'n datblygu yn ymennydd plentyn hyd at 2 oed yn ffurfio dwywaith yn gyflymach. Y cysylltiadau yma sy'n ffurfio'r rhwydweithiau sy'n sail i ddatblygiad plentyn (Save the Children, 2016). Gan ystyried bod gan ymennydd oedolyn 86 biliwn o niwronau, mae rhan fwyaf o'r cysylltiadau yma'n cael eu creu a'u datblygu yn fwy helaeth yn y groth, o ganlyniad, dyma gyfnod o ddatblygiad cyflym sy'n darparu'r sail am iechyd drwy oes a'r cyfle i blentyn cyrraedd eu potensial yn ystod datblygiad blynyddoedd cynnar yr ymennydd (Hyson a Tomlinson, 2014) felly, yn unol â hynny, mae Verny a Weintraub (2002) dadlau bod datblygiad y 1000 diwrnod cyntaf yn dechrau yn syth ar ôl beichiogiad (Negussie, Geller a DeVoe, 2019).



1 - Yn y groth

(Ffynhonnell: Bump2Baby, 2021).



2 - 1-2 mis

(Ffynhonnell: G. H. Hurt & Son, dim dyddiad).



3 - 3-6 mis

(Ffynhonnell: Make Time 2 Play, dim dyddiad).



4 - 7-11 mis

(Ffynhonnell: WonderBaby, 2022).



5 - 12-18 mis

(Ffynhonnell: How We Montessori, 2018)



6 - 18 mis i 2 flynedd

(Ffynhonnell: Kinedu, 2019)

Datblygiad cyn-geni

Trwy gydol beichiogrwydd, mae maethiad yn chwarae rôl bwysig mewn tebygrwydd plentyn o heintiau yn y dyfodol, megis:

- Clefyd y siwgr
- Strôc
- Gorbwysedd

Mae'r heintiau yma yn tarddu yn ystod beichiogrwydd ac mi all anhwylderau megis; diet, gorbwysedd a llesiant meddyliol gwael i gyd cael effaith trychinebus ar iechyd plentyn yn ôl Monk, Georgieff a Osterholm (2012).

1-2 mis

Yn ystod y misoedd cyntaf mi fydd plentyn yn dechrau...

- Estyn allan atoch pan fydd eisiau sylw
- Symud ei freichiau a'i goesau
- Gwenu a chwythu swigod

- Dilyn pethau â'i lygaid, mae hwn yn cyfateb i'r ddealltwriaeth o sefydlogrwydd gwrthrych e.e. lle mae gwrthrych yn gallu cael ei rhoi o dan blanced, ond dealltwriaeth y plentyn bod yr wrthrych heb ddiflannu, a'i fod o dan rywbeth arall (Baillargeon, R. a DeVos, J., 1991).
- Ymateb i synau drwy agor ei lygaid, gwgu, neu ddihuno o gwsg
- Dal ymlaen i bethau
- Dal ei ben i fyny am ychydig heb gymorth

(Johnson a Aslin, 1995).

3-6 mis

Wrth iddyn nhw ddatblygu ymhellach, mi fydden nhw yn...

- Dal eu breichiau allan i gael eu codi
- Rolio
- Eistedd i fyny (â chymorth)
- Gafael ar wrthrychau sy'n cael ei rhoi o'u blaenau
- Dechrau cyfathrebu trwy synau ac ystumiau
- Gwybod bod gwrthrychau, megis; ratl yn gwneud sŵn wrth gael ei ysgwyd
- Crio os yw'n gweld pobl ddieithr
- Troi atoch wrth glywed dy lais
- Symud tegau o un llaw i'r llall
- Cyffroi wrth weld/ clywed pobl gyfarwydd

(Legerstee, Barna a DiAdamo, 2000).

7-11 mis

Erbyn nawr, fe all plentyn...

- Eistedd lan heb gymorth
- Edrych i weld o ba gyfeiriad mae synau yn dod
- Ymateb i'w henw
- Archwilio pethau hefo'i ddwylo/ ceg
- Parablu â synau y gallwch adnabod, e.e. 'mama' a 'dada'
- Deall geiriau syml, e.e. 'ta-ta' a 'na'
- Clapio a chwifio
- Chwilio am wrthrych os yw'n eich gweld wedi cuddio
- Deall ymadroddion/ cyfarwyddiadau syml
- Dangos cariad

- Cropian/ llithro ar ei fol/ symud ar ei phen ôl ar draws y llawr

(Bridges, 1932 a Karasik, Tamis-LeMonda ac Adolph, 2011).

12-18 mis

Mi all plentyn erbyn nawr...

- Cerdded/ rhedeg/ dringo
- Cael hi'n anodd wrth ddelio ag emosiynau
- Bwydo'i hun
- Mwynhau chwarae/ adeiladu â blociau

(Repacholi, 2010).

18 mis i 2 flynedd

Dyma ddiwedd glo'r 1000 diwrnod cyntaf, lle mae plentyn blynyddoedd cynnar yn cyrraedd eu potensial ac yn gosod sail ar gyfer y dyfodol.

- Deall 'na' ond methu rheoli ei fympwyon
- Cicio a thaflu peli
- Gwybod ystod o eiriau ac yn dechrau adeiladu brawddegau
- Teimlo'n flin pan nad ydyn yn gallu gwneud rhywbeth yn annibynnol
- Dechrau deall a mwynhau chwarae rôl


(Deichmann ac Ahnert, 2021).

Cyfrifoldebau Gofal



Arwyddocâd Gofal Eithriadol

Hawlia Save the Children (2016) bod gan rieni a gofalwyr y dylanwad pwysicaf ar ddatblygiad plentyn, gan maen nhw sydd ym meicrosystem y plentyn yn ôl damcaniaeth ecolegol Bronfenbrenner (gweler diagram ar y dde), (Härkönen, 2008). Mae Härkönen yn parhau gan fynnu dylanwad effeithiol y feicrosystem ar ddatblygiad cyfannol blentyn a bod gan ymarferwyr pwysigrwydd cyfartal a'r rhieni a gofalwyr. Mae'n hanfodol bod ymarferydd yn darparu amgylchedd sy'n symbylu ac yn ddiogel, felly, er mwyn creu ardal a bydd yn ennyn chwilfrydedd mae angen magu perthynas a'r plant sydd yn ei ofal er mwyn adnabod anghenion yr unigolion a threfnu'n amgylchedd mewn ffordd berthnasol a bydd yn cynnal eu hanghenion a'u diddordebau (Bear a Minke, 2006).



7 - Damcaniaeth Systemau Ecolegol Bronfenbrenner

(Ffynhonnell: Young, 2021).

Beth yw Oedolyn Galluogi?

Ymarferydd sy'n...

Hwylusydd

Cyfathrebwr

Arweinydd

Proffesiynol

Arbenigydd

Gofalwr

Addysgwr

Mae plant yn dibynnu ar oedolion oherwydd maent yn dueddol i'r amgylchedd o'u cwmpas ac yn archolladwy yn ôl First 1001 Days Movement (2022). Yn unol â hynny, mae Llywodraeth Cymru (2022), yn nodi bod ymarferydd proffesiynol yn...

Ymateb i anghenion a gofynion y plentyn

Magu amgylchedd sy'n gyfoethog o ran cyfathrebu

Modelu ymagwedd lawen at ddysgu

Chwarae rôl integrol mewn datblygiad plant yn ystod amser arwyddocaol penodol o ddysgu cynnar.

Creu amgylchfeydd emosiynol ddiogel sy'n cynorthwyo plant i fynegi a rheoli'u teimladau mewn modd positif.

Hybu chwilfrydedd naturiol

Gwneud y defnydd orau o gyfleoedd dysgu ddigymell (sy'n digwydd yn naturiol).

Creu cysylltiadau cryf â chartref a chymuned er mwyn atgyfnerthu ymdeimlad o berthyn (mae hon yn cyfateb i gwricwlwm Cymru a'i thema o 'cynefin').

Bod yn gyson yn eu gofal a bod yn batrwn o dosturi a charedigrwydd. Mi fydd hwn yn fuddiol ar lesiant plant blynyddoedd cynnar wrth iddynt ddatblygu.

Cyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys

Arsylwi yn drylwyr gan wedyn cynllunio profiadau a sesiynau a bydd yn ennyn chwilfrydedd ac yn cyfateb i ddiddordebau ac anghenion yr unigolion.

Hybu plant i ddatblygu'u hannibyniaeth a'u hyder

Dywed Stacey (2009) bod y cwricwlwm i Gymru wedi'i ddyfeisio gan y cyfranogwyr eu hun gan fod athrawon ac ymarferwyr ar eu gorau pan maent yn dilyn y plant fel modelau ar gyfer eu chwilfrydedd oedolyn. O ganlyniad, mae ymarferydd yn dysgu amdany'n nhw a gyda'r unigolion, sy'n cyfateb â damcaniaeth Jean Jacques Rousseau, sydd wedi dylanwadu ar newid yn y cwricwlwm i hybu ymarferydd i ddilyn datblygiad y plentyn a'r pwysigrwydd o werthoedd, gwybyddiaeth, a'r sgiliau maent yn magu ar lefel eu hunain, damcaniaeth felly, sy'n seiliedig at gydweithrediad rhwng plant ac ymarferwyr. Mae'r cwricwlwm Cymraeg felly wedi'i chychwyn a'i lunio gan blant ac nad yw wedi'i arddweud gan alwadau cymdeithasol (Koops, 2012).

Cyfrifoldeb y gofalwr yw adlewyrchu ar yr amgylchedd a'i arsylwi a gwerthuso'r manau sy'n cael eu defnyddio a'i heffeithlonrwydd. Mae'n hollbwysig bod yr amgylchedd yn ymateb i ddiddordebau'r plant, ac o ganlyniad mi fydd ail-ddylunio i fodloni anghenion unigolion yn hwyluso datblygiad llwyddiannus. Dywed Montessori bod arsylwi yn hollbwysig er mwyn deall anghenion y plentyn ac os oes angen ymyrraeth yn ystod y blynyddoedd cynnar i gefnogi'i ddatblygiad. Mae damcaniaeth Montessori wedi'i adlewyrchu mewn llawer o feithrinfeydd yn ddiweddar, gan fod pwyslais penodol ar ddysgu plentyn-ganolog a bod cyfarpar yn hygyrch i blant (Al, Sari, a Kahya, 2012). Mae Al, Sari, a Kahya yn argyhoeddedig fod darparu offer go iawn yn hybu plant i ddysgu am gymryd risgiau er mwyn dysgu pwysigrwydd canlyniadau, a dosraniad pwysau sy'n bwysig yn benodol ar gyfer ddatblygiad deheurwydd. Mewn amgylcheddau Montessori mae gan bob peth lle arbennig, mae hwn yn benodol yn rhoi cyfle arbennig i blant creu a datblygu gwagleoedd chwarae ei hunain, o ganlyniad mi fydden nhw yn derbyn synnwyr o gyfrifoldeb ac annibyniaeth yn unol â pharch o'r amgylchedd sy'n cyfateb i ddatblygiad cyfannol plant. Er hynny, gan fod rhyddid gan blant i gysylltu mewn amser ystyrlon o chwarae i ganiatáu am arsylwadau, mae ystafelloedd Montessori yn cael eu hystyried fel 'amgylchedd parod' lle mae ymdeimlad o drefn a chytgord gan eu bod wedi'u apartoi gan yr addysgwr er mwyn hybu datblygiad a phrofiadau dysgu (Al, Sari, a Kahya, 2012).

Dyma enghreifftiau o ystafelloedd dosbarth Montessori, lle mae pob peth ar daldra plant, yn hygyrch, ac o ddefnyddiau naturiol ...



8 - (Ffynhonnell: Association Montessori Internationale, 2024).



9 - (Ffynhonnell: Raintree Montessori School, 2015).



10 - (Ffynhonnell: Montessori in Real Life, 2020).



11 - (Ffynhonnell: North America Montessori Center, 2010).

Partneriaethau Proffesiynol



Pam ydy Partneriaethau Proffesiynol yn bwysig?

Mae cyfathrebiad cyson ac effeithiol yn gydran blaenaf ym mhartneriaethau proffesiynol. Dadla Egwyddorion Froebel, bod angen i feithrinfeydd ac ysgolion ymgysylltu yn gyson gyda rhieni, teulu a chymuned leol y plentyn er mwyn hwyluso datblygiad cyfannol y plentyn (Lilley, 1967). Mae Llywodraeth Cymru (2016) yn cefnogi hyn gan sicrhau bod cyfathrebiad cynhyrchiol rhwng rhieni ymgysyllti sy'n aswario o fod yn rhan o addysg y plentyn yn gallu hwyluso cysylltiadau sefydlog a pharchus. Ar ben hynny, mae ymarferydd sy'n cydweithio'n effeithiol ar hyd cydweithio â myrdd o asiantaethau angenrheidiol yn sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu trin yn unol â hynny, gan fod ymarferydd yn gallu arsylwi a deall pan mae ymyraethau pellach yn ofynnol am fudd datblygiad cyfannol y plentyn (Children's Workforce Development Council, 2010).




12 - (Ffynhonnell: Meetric, 2021).

Dyma esiamplau am bryd y byddai'n angenrheidiol i ffurfio cydweithrediadau:

- Plentyn sydd â lleferydd, gohiriedig, aneglur, ac sydd ddim yn datblygu (**MacDonald a Carroll, 1992**).
 - Cydweithio â therapydd iaith a lleferydd a derbyn adnoddau arbenigol er mwyn cynorthwyo dysgu ar lawr y dosbarth.
- Plentyn sy'n gwrthod cymryd rhan mewn gwersi (**Mercieca, 2009**).
 - Hysbysu rhieni ar y sefyllfa gan gydnabod y gall digwyddiad blaenorol cael effaith ar y plentyn, ac o ganlyniad, maent yn ansefydlog yn yr ysgol.
 - Cysylltu â seicolegydd addysgiadol os yw'r sefyllfa yn gwaethygu ac yn cael effaith ar gynnydd academiaidd a cyfannol y plentyn.
- Plentyn sydd wedi codi digwyddiad â chi sy'n codi achos pryder (**Woods, et al., 2011**).
 - Cyfathrebu ag arweinydd a swyddog diogelu plant yn eich lleoliad chi
 - Cadw cofnodion o achosion pryder y plentyn ar 'My Concern', felly, fe fydd gwasanaethau cymdeithasol yn ymyrru os yw'r pryderon yn cyrraedd y trothwy.

Mae rhaid i ymarferydd ymyrryd mewn modd sensitif er mwyn cefnogi plant i ehangu eu gwybyddiaeth ymhellach gan hefyd hwyluso dull plentyn-ganolog at ddysgu (Lindon, 2010). Mynna Lindon hon gan gymhwyso damcaniaeth Vygotsky o'r Parth Datblygiad Procsimol (gweler diagram ar y dde) gan taw oedolion yw arweinwyr a chyfarwyddwyr plant, sy'n cynnal eu harchwiliad a'u dysgu gyda'u galluedd cyfredol. Mae'r Parth Datblygiad Procsimol yw lle y bydd ymarferydd yn ymyrryd a bod yn sgaffald i ddatblygiad y plentyn. Er hynny, bu rhaid i'r ymarferydd yn gyntaf arsylwi'r unigolyn er mwyn deall ei galluedd cyfredol gan gaffael yr ymyraethau priodol a bydd yn angenrheidiol ar gyfer datblygiad sydd o fewn diddordebau'r plentyn, o ganlyniad, mae analluedd yn troi yn allwedd (Lindon, 2010).

Mae partneriaethau effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol wedi dangos eu bod yn fuddiol i les a datblygiad gwybyddol sy'n dylanwadu datblygiad cyfannol. Awgryma Bronfenbrenner ymhellach sut mae meicrosystem plentyn – y rhai sy'n magu'r perthnasoedd agos gyda'r unigolyn – a hefyd yr ecosystem – y gymuned leol – yn ynghlwm yn gryf mewn elfennau pwysig o ddatblygiad y plentyn (Ashiabi ac O'Neal, 2015). Bu rhaid i ymarferydd ymdrechu i hwyluso datblygiad llwyddiannus, gan hefyd cyflawni amcanion a gwybodaeth orchmynnol ar y plentyn er mwyn cefnogi ei ddatblygiad cyfannol ymhellach.



13 - Parth Datblygiad Procsimol Vygotsky

(Ffynhonnell: Chapman and Company, 2018).

Gweithgareddau



Mae profiadau plant yn ystod y blynyddoedd cynnar yn cael effaith fuddiol ar ddatblygiad yr ymennydd. Er mai genynnau yn darparu'r fframwaith sylfaenol, y profiadau sydd wedi'u cynnal iddynt sy'n rhoddi'r sail ar gyfer dysgu ac ymddygiad yn y dyfodol (Harvard University, 2016). Trwy'r defnydd o synhwyrau mi all babanod cysylltu symud â dysgu, fel y mynna Gehris, Gooze, a Whitaker (2014) gan fod yr ymdeimlad o symud ein cyrff – Cinesthesia - yn sylfaenol o ran datblygiad o'r hunain. Yn ôl Learning and Teaching Scotland (2005), mae datblygiad yn digwydd pan mae gweithgareddau wedi'u paratoi sy'n hybu plant i gymryd rhan trwy archwilio, darganfod, a rhyngweithio ag eraill.

Mae'r ddealltwriaeth o'r dull chwilfrydedd yn hawlio bod dysgu sydd wedi'i harwain gan y plentyn yn fodd llwyddiannus o danio chwilfrydedd i archwilio'r byd o'i gwmpas, gan mai nhw sydd yn gwneud y penderfyniadau ac nid yr addysgwr sy'n cyfeirio nhw (Menning, S. F., 2018). Atgyfnertha hwn gan ddull Ysgol y Goedwig, lle yng ngwledydd Llychlynnaidd, maent yn rhan integrol o'i gwricwlwm am dan oed ysgol. Mae'r dyfod yma yn mynnu bod plant yn datblygu trwy ddysgu am a gyda natur, gan mai hyn yn hybu archwiliad wedi'u harwain gan y dysgwr, sy'n cyfleu damcaniaeth Montessori. Eto, i

gyfleu hyn, mae'r plant sy'n mynychu Ysgol y Goedwig yn dysgu'n hirdymor dan arsylwad athrawon ac ymarferydd proffesiynol a hyfforddedig sy'n hwyluso datblygiad cyfannol (Ordon, U., 2019). Awgryma Constable (2014) bod gan ddisgyblion sy'n dechrau ysgol ac sydd wedi mynychu Ysgol y Goedwig yn y gorffennol sgiliau cymdeithasol cryf, yn gweithio yn effeithiol mewn grwpiau, ac yn cael hyder yn eu gallu gan fod priodweddau Ysgol y Goedwig wedi'u seilio yn bennaf ar werthoedd.



14 - (Ffynhonnell: Empowered Parents, 2023).

Dyma mewnweliad i sut mae ddiwrnod arferol yn edrych i ddisgyblion Ysgol y Goedwig...



15 - (Ffynhonnell: The Telegraph, 2015).



16 - (Ffynhonnell: Children & Young People Now, 2022).



17 - (Ffynhonnell: NurseryWorld, 2015).

Mae yna wahanol fathau o weithgareddau wrth ystyried pwy sydd yn arwain y gweithgaredd, fel yr awgryma Lindon (2010), bod gweithgareddau dan arweiniad plant heb eu gorfodi ac yn digwydd yn benodol pan mae'r plentyn yn rhydd i ddewis a threfnu adnoddau a chymdogion. Dadla Pacey (dim dyddiad) bod gweithgareddau dan arweiniad oedolion yw gweithgareddau a ddewisir gan yr addysgwr i annog agweddau ar ddysgu a diddordebau penodol y plant. Mae dealltwriaeth Lindon (2010) a Pacey (dim dyddiad) yn atgyfnerthu'r pwysigrwydd o'r cydbwysedd rhwng dysgu strwythedig drwy weithgareddau a gychwynnir gan blant ac oedolion.

Mae amgylcheddau awyr agored yn caniatáu i blant ddefnyddio'u holl synhwyrâu ac o ganlyniad fydd y profiad yn gyfoethocach ac yn fwy cofiadwy iddyn nhw. Mae'r cyfle i ymgysylltu â'r awyr agored yn hybu'r ymdeimlad o gynefin, sy'n ymateb at ofynion y cwricwlwm i Gymru, gan wireddu'r 4 Diben (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae'r Llywodraeth Cymru yn parhau gan nodi bod yr awyr agored yn cyfleu pwysigrwydd gweithgareddau amlsynhwyrdd sy'n gwella datblygiad cymdeithasol, emosiynol, a gwybyddol. Mae plant yn defnyddio'u synhwyrâu i archwilio'r bydd, felly mae'n hollbwysig bod yr addysgwr yn darparu amrywiaeth o weithgareddau sy'n cyffroi'r synhwyrâu er mwyn cefnogi plant i ryngweithio ac i wneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas (Gascoyne, 2011) ac (Action for Play, 2022).

Fodd bynnag, mae angen bod yr amgylcheddau y mae'r addysgwyr yn darparu yn amgylcheddau sy'n galluogi. Noda Waters-Davies (2022) bod amgylcheddau galluogi yw amgylcheddau sy'n gyfoethog o ran iaith a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal, sydd wedi'i luniadu'n ddamcaniaethol. Mae Waters-Davies yn parhau gan fynnu'r pwyslais ar ail-ddylunio gofod chwarae sydd wedi'i hetifeddu er mwyn darparu gweithgareddau sy'n fuddiol i ddatblygiad plant, ac i beidio derbyn fel y maen nhw. Mae'r agwedd yma'n benodol yn ymateb i ddamcaniaethau Reggio Emilia, lle mae'n hanfodol bod mannau yn cael eu hystyried a'u cynllunio i wella addysg y plant, yn enwedig yr amgylcheddau awyr agored gan mae'r "trydydd athro" yw hi (Strong-Wilson a Ellis, 2009).

Beth yw Profiadau Difyr? (Llywodraeth Cymru, 2022).

Mae Profiadau Difyr yn darparu cyfleoedd sy'n...

Ymarferol, yn bwrpasol, ac yn ystyrlon

Annog annibyniaeth

Cynnig risg

Cynnig heriau i brofi llwyddiant

Gwreiddio yng nghyd-destunau go iawn, megis cysylltu plant mewn lefelau dwfn o gyfranogiad a chyfnodau hir o ddysgu gweithredol di-dor.

Gweithgareddau go-iawn, e.e. coginio, garddio, a glanhau

Darparu amrywiaeth o gyfleoedd i arbrofi ag offer a deunyddiau i greu marciau

Darparu profiadau sy'n hyrwyddo mwynhad mewn gweithgarwch corfforol

Cynnig profiadau sy'n cefnogi plant i asesu a rheoli risg, er mwyn hybu nhw i feddwl, cynllunio, a gwneud penderfyniadau yn annibynnol.

Darparu profiadau o safon uchel sy'n hanfodol er mwyn i blant feithrin sgiliau cyfathrebu a gwydnwch emosiynol.


Cynnig profiadau sy'n adlewyrchu a pharchu dwyieithrwydd a diwylliant Cymreig, e.e. straeon, chwedlau, cerddi, caneuon, a rhigymau.

Darparu gweithgareddau amlsynhwyrdd

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau gan nodi bod amgylcheddau effeithiol wrth wraidd profiadau dilys, gan fod archwilio'r amgylchedd yn ystod y blynyddoedd cynnar yn ffactor allweddol sy'n ysgogi datblygiad cyfannol. Mae amgylcheddau galluogi sy'n hybu profiadau dilys yn cynnig y cyfleoedd i blant i feithrin sgiliau echddygol bras a manwl, sy'n adlewyrchu sut mae plant yn gallu herio'u hunain yn gorfforol. Mae gan amgylcheddau galluogi mynediad di-ri at amrywiaeth o adnoddau pen agored. Mae'r agwedd yma'n benodol yn ymateb i ddamcaniaethau Pikler, a'r budd o ryddid ar ddatblygiad galluedd echddygol plant. Cred Pikler bod doethineb corfforol cynhenid gan bob plentyn, a ni ddylse nhw cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd ni allan nhw eu hunain gwneud. Cred Vamos (2015) bod effaith sylweddol ar alluedd dysgu 'fabanod Pikler', am fod nhw'n rhydd i symud o gwmpas y gofod yn ddiogel, ac yn dysgu sut i adnabod eu terfynau eu hun, gan ymarfer ymreolaeth ar lefel eu haeddfedrwydd. Mae Kayir (2022) yn pwysleisio dwy prif briodwedd egwyddorion Pikler, sef; pwysigrwydd perthnasoedd caredig a rhyddid plentyn i symud ar lefel ddatblygiad eu hun â'r pwysigrwydd eithriadol gofal cyffyrddus a pharchus ym mherthynas y plentyn a'r oedolyn.

Heriau

SLEEPINGSHOULDBEEASY.COM



WHAT TO DO WHEN YOUR CHILD
CRIES AT DROP OFF

Mae'n hollbwysig bod ymarferwyr ac addysgwyr yn ymwybodol o rwystrau bosib a all godi wrth ddarparu gofal i blant yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf, a all hefyd ymyrryd a chyfathrebiad a chysylltiadau â rhieni a gofalwyr. Rhaid bod addysgwyr yn barod i oresgyn yr heriau hyn mewn modd effeithiol a pharchus er mwyn cadw'r datblygiad ac anghenion y plenty mewn cof ar bob adeg. Mi all rhai rhwystrau posib cynnwys...

- Profiadau negyddol ag ymarferwyr yn y gorffennol
 - Mi all hwn achosi i rieni i fod yn wrthwynebol a hyd yn oed osgoi ymrwymiad.
- Rhieni sydd ag anghenion dysgu dwys a all effeithio cyfathrebiad â'r addysgwyr
 - Fe all blentyn mynd trwy ddatblygiad pwysig y 1000 diwrnod cyntaf ag anghenion emosiynol ac academaidd heb ei gwrdd.
 - Fe all gwybodaeth hanfodol sy'n cael eu rhannu ond nid eu deall.
- Pryderon diogelu
 - Mae'n bosib y gall rhieni fod yn anghyfforddus wrth gyfathrebu ag ymarferydd ac eto osgoi cysylltiadau yn gyfan gwbl.

Rhestr Cyfeiriadau



Action for Children (2022) What is sensory play and why is it important? Ar gael: <https://www.actionforchildren.org.uk/blog/what-is-sensory-play-and-why-is-it-important/#:~:text=Sensory%20play%20is%20a%20lot,complex%20tasks%20and%20problem%20solving> (Cyrchu 18eg o Ionawr 2024).

Al, S., Sari, R. M., a Kahya, N. C. (2012) 'A Different Perspective on Education: Montessori and Montessori School Architecture', *Procedia - Social Social and Behavioral Sciences*, 46, pp. 1866-1871.

Ashiabi, G. and O'Neal, K. (2015) 'Child Social Development in Context: An Examination of some Propositions in Bronfenbrenner's Bioecological Theory', *SAGE Open*, 5(2), pp. 1-14.

Association Montessori Internationale (2024) *Shape of Montessori Classrooms*. Ar gael: <https://montessori-ami.org/questions/shape-montessori-classrooms> (Cyrchu: 18eg o Ionawr, 2024).

Association of Child Psychotherapists (2021) *The First 1001 Days Movement*. Ar gael: <https://childpsychotherapy.org.uk/news-media-0/campaigns/first-1001-days-movement#:~:text=The%20mission%20of%20the%20movement,in%20the%20first%201001%20days.> (Cyrchu: 17eg o Ionawr 2024).

Baillargeon, R., a DeVos, J. (1991) 'Object Permanence in Young Infants: Further Evidence', *Child Development*, 62(6), pp. 1227-1246.

Bear, G. G., a Minke, K. M. (2006) *Children's needs III: Development, prevention, and intervention*. Washington D.C: National Association of School Psychologists.

Bridges, K. M. (1932) 'Emotional Development in Early Infancy', *Child Development*, 3(4), pp. 324-341.

Bump2Baby (2021) *11 things unborn babies can do in the womb*. Ar gael: <https://bump2babyscans.co.uk/11-things-unborn-babies-can-do-in-the-womb/> (Cyrchu: 15fed o Ionawr 2024).

Chapman and Company (2018) *Vygotsky's Zone of Proximal Development*. [Diagram]. Ar gael: <https://www.chapmanandcompany.co/blog/what-is-the-zone-of-proximal-development> (Cyrchu: 17eg o Ionawr 2024).

Children & Young People Now (2022) *The benefits of forest schools for child development*. Ar gael: <https://www.cypnow.co.uk/blogs/article/the-benefits-of-forest-schools-for-child-development> (Cyrchu: 18eg o Ionawr. 2024).

Children's Workforce Development Council (2010) *Common Core Skills and Knowledge for the Children's Workforce*. Ar gael: https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/86466/mod_resource/content/1/Common%20core%20of%20s%20kills%20and%20knowledge%20for%20the%20childrens%20workforce.pdf (Cyrchu: 17eg o Ionawr 2024).

Constable, K. (2014) *Bringing the Forest Schools Approach to your Early Years Practice*. Oxon: Routledge.

D. Aleli (2022) *Cognitive Development Milestones*. Ar gael: <https://www.verywellmind.com/cognitive-developmental-milestones-2795109> (Cyrchu: 9fed o Ionawr 2024).

Deichmann, F., ac Ahnert, L. (2021) 'The terrible twos: How children cope with frustration and tantrums and the effect of maternal and paternal behaviours', *The Official Journal of the International Congress of Infant Studies*, 26(3), pp. 469-493.

Empowered Parents (2023) *The 12 Benefits of Free Play in Early Childhood*. Ar gael: <https://empoweredparents.co/why-your-preschooler-needs-regular-free-play/> (Cyrchu: 18eg o Ionawr 2024).

Garcia, N. (2022) *What to Do When Your Child Cries at School Drop Off*. Ar gael: <https://sleepingshouldbeeasy.com/child-cries-at-drop-off/> (Cyrchu: 9fed o Ionawr 2024).

Gascoyne, S. (2011) *Sensory Play: Play in the EYFS*. London: MA Education Ltd.

Gehris, J. S., Gooze, R. A., a Whitaker, R. C. (2014) 'Teachers' perceptions about children's movement in learning in early childhood education programmes', *Child: care, health and development*, 41(1), pp. 122-131.

G. H. Hurt & Son (dim dyddiad) *The Perfect Christening Gift*. Ar gael: <https://www.ghhurt.com/baby-shawls/product/nottingham-lace-knitted-baby-shawl.html> (Cyrchu: 15fed o Ionawr 2024).

Härkönen, U. (2008) 'The Bronfenbrenner ecological systems theory of human development', *Scientific Articles of V International Conference*, pp. 7-10.

Harvard University (2016) *The Case for Science-Based Innovation in Early Childhood*. [Fideo]. Ar gael: <https://www.youtube.com/watch?v=2Umr8Acgluc> (Cyrchu 18eg o Ionawr 2024).

How We Montessori (2018) *The Pikler Arch*. Ar gael: <https://www.howwemontessori.com/how-we-montessori/2018/07/the-piker-arch.html> (Cyrchu: 15fed o Ionawr 2024).

Hyson, M., a Tomlinson, H. B. (2014) *The Early Years Matter: Education, Care, and the Well-Being of Children, Birth to 8*. New York: Teachers College Press.

Johnson, S. P., a Aslin, R. N. (1995) 'Perception of object unity in 2-month-old infants', *Developmental Psychology*, 31(5), pp. 739–745.

Karasik, L. B., Tamis-LeMonda, C. S., ac Adolph, K. E. (2011) 'Transition From Crawling to Walking and Infants' Actions With Objects and People', *Child Development*, 82(4), pp. 1199-1209.

Kayir, G. (2022) 'Emmi Pikler's approach to early childhood education' in Ari, A. (2022) *Student friendly teaching approaches*. New Castle Upon Tyne: Cambridge Scholars Publishing.

Kinedu (2019) *Child development stages*. Ar gael: <https://blog.kinedu.com/child-development-stages-12-to-24-months/> (Cyrchu: 15fed o Ionawr 2024).

Koops, W. (2012) 'Jean Jacques Rousseau, modern developmental psychology, and education', *European Journal of Developmental Psychology*, 20(6), pp. 903-915.

Learning and Teaching Scotland (2005) *Birth to Three: Supporting Our Youngest Children*. Edinburgh: Learning and Teaching Scotland.

Legerstee, M., Barna, J., a DiAdamo, C. (2000) 'Precursors to the development of intention at 6 months: Understanding people and their actions', *Developmental Psychology*, 36(5), pp. 627–634.

Lilley, I. M. (1968) 'Friedrich Froebel. A Selection from His Writings', *History of Education Quarterly*, 8(4), pp. 528-530.

Lindon, J. (2010) *Understanding Child Development* 2nd Ed. London: Hodder Education.

Llywodraeth Cymru (2016) Foundation Phase Action Plan. Ar gael: <https://sites.google.com/a/bvsd.org/lucinda-schuettpeiz/growth-mindset-1> (Cyrchu: 17eg o Ionawr 2024).

Llywodraeth Cymru (2022) A curriculum for funded non-maintained nursery settings. Ar gael: <https://hwb.gov.wales/api/storage/b1801d78-38c3-4320-9818-d9996c21aef8/220914-a-curriculum-for-funded-non-maintained-nursery-settings.pdf> (Cyrchu: 17eg o Ionawr 2024).

MacDonald, J. C. & Carroll, J. Y. (1996) 'A Social Partnership Model for Assessing Early Communication Development', *Language, Speech, and Hearing Services in Schools*, 23(2), pp. 113- 124.

- Make Time 2 Play (dim dyddiad) *Babies - 0-9 months*. Ar gael: <https://www.maketime2play.co.uk/fun-forever/babies/> (Cyrchu: 15fed o Ionawr 2024).
- Meetric (2021) *Setting a Staff Meeting Agenda*. [Cartŵn]. Ar gael: <https://www.meetric.app/blog/setting-a-staff-meeting-agenda> (Cyrchu: 17eg o Ionawr 2024).
- Meaning, S. F. (2018) 'Why nurturing curiosity is an ethical endeavour: exploring practitioners' reflections on the importance of curiosity', *International Journal of Early Years Education*, 27(1), pp. 34-51.
- Mercieca, D. (2009) 'Working with Uncertainty: Reflections of an Educational Psychologist on Working with Children', *Ethics and Social Welfare*, 3(2), pp. 170-180.
- Monk, C., Georgieff, M. K., a Osterholm, E. R. (2012) 'Research Review: Maternal prenatal distress and poor nutrition - mutually influencing risk factors effecting infant neurocognitive development', *The Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 54(2), pp. 115-130.
- Monkey Business Images (2018) *For any kind of PLC to be effective, having a shared vision among staff is crucial*. Ar gael: https://www.teachermagazine.com/au_en/articles/professional-learning-implementing-collaborative-learning-teams (Cyrchu: 9fed o Ionawr 2024).
- Montessori in Real Life (2020) *Choosing a Montessori School*. Ar gael: <https://www.montessoriinreallife.com/home/tag/montessori+parent> (Cyrchu: 18eg o Ionawr 2024).
- Negussie, Y., Geller, A., a DeVoe, J. E. (2019) *Vibrant and Healthy Kids: Aligning Science, Practice, and Policy to Advance Healthy Equity*. Washington D.C: National Academies Press.
- North American Montessori Center (2010) *A Typical Day in a Montessori Preschool Classroom: Daily Schedule and Routine Planning*. Ar gael: https://montessoritraining.blogspot.com/2010/10/montessori-insights-and-reflections-of_05.html (Cyrchu: 18eg o Ionawr 2024).
- NurseryWorld (2015) *EYFS Best Practice: All about... forest schools*. Ar gael: <https://www.nurseryworld.co.uk/features/article/eyfs-best-practice-all-about-forest-schools> (Cyrchu: 18eg o Ionawr 2024).
- Ordon, U. (2019) 'Forest Nursery Schools and the Need for Health and Ecological Education Among the Youngest', *Edukacja Elementarna w Teorii Praktyce*, 14(3), pp. 111-120.
- Pacey. (dim dyddiad) *Rôl yr oedolyn*. Ar gael: <https://www.pacey.org.uk/working-in-childcare/inspiring-environments/role-of-the-adult/>. (Cyrchu: 18eg o Ionawr 2024).
- PeopleImages (2022) *Shot of a teacher spending time outside with preschool children stock photo*. Ar gael: <https://www.istockphoto.com/photo/shot-of-a-teacher-spending-time-outside-with-preschool-children-gm1395558153-450622864> (Cyrchu: 9fed o Ionawr 2024).
- Raintree Montessori School (2015) *Nine Qualities of an Authentic Montessori School*. Ar gael: <https://raintreemontessori.org/current/nine-qualities-of-an-authentic-montessori-school/> (Cyrchu: 18eg o Ionawr 2024).
- Repacholi, B. M. (2010) 'Linking actions and emotions: Evidence from 15 and 18-month-old infants', *British Journal of Developmental Psychology*, 27(3), pp. 649-667.

Save the Children (2016) *Lighting up young brains: How parents, carers and nurseries support children's brain development in the first five years*. Ar gael: [lighting-up-young-brains.pdf](https://www.savethechildren.org.uk/lighting-up-young-brains.pdf) ([savethechildren.org.uk](https://www.savethechildren.org.uk)) (Cyrchu: 15fed o Ionawr 2024).

Stacey, S. (2009) *Emergent Curriculum in Early Childhood Settings*. Redleaf Press: Yorkton Court.

Stiles, J., a Jernigan, T. L. (2010) 'The Basics of Brain Development', *Neuropsychology Review*, 20(4), pp. 327-348.

Strong-Wilson, T., a Ellis, J. (2009) 'Children and Place: Reggio Emilia's Environment as Third Teacher', *Theory into Practice*, 46(1), pp. 40-47.

The Blossom Nursery (2022) *Parachute play*. [Facebook]. Ar gael: <https://www.facebook.com/TheBlossomNursery/photos/a.10150307829156632/10162003193626632/?type=3> (Cyrchu: 9fed o Ionawr 2024).

The Telegraph (2015) *Reading, writing and mud: The growth of Forest Schools*. Ar gael: <https://www.telegraph.co.uk/education/primaryeducation/12038625/Reading-writing-and-mud-the-growth-of-Forest-Schools.html> (Cyrchu: 18eg o Ionawr 2024).

Vamos, J. (2015) 'FREE TO MOVE, FREE TO BE', *The American journal of psychoanalysis*, 75(1), pp. 65–75.

Verny, T. R., a Weintraub, P. (2002) *Tomorrow's Baby: The Art and Science of Parenting and Conception Through Infancy*. New York: Simon & Schuster.

Waters-Davies, J. (2022) *Introduction to Play*. Sage Publications Ltd.

WonderBaby (2022) *How To Encourage Crawling*. Ar gael: <https://www.wonderbaby.org/articles/how-to-encourage-crawling> (Cyrchu: 15fed o Ionawr 2024).

Woods, K. et al. (2011) 'The role of school psychologists in child protection and safeguarding', *School Psychology International*, 32(4), pp. 361-376.

Young, J. (2021) *Ecological Systems Theory*. [Llun]. Ar gael: https://twitter.com/Juliet_Young1/status/1423018236350799872 (Cyrchu: 17eg o Ionawr 2024).